CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 15ed TACHWEDD 2022.

PRESENNOL:
Cyng J Evans (Cadeirydd) D T Roberts (Is-Gadeirydd) Ms N Dafydd, G Jones, J E Lewis, R G Parry, W R Parry, Mrs L Roberts, R R Roberts,

YMDDIHEURIADAU:
Miss B Owen.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.
Neb.

CAEL COFNODION (18ed Hydref 2022) 1af Tachwedd 2022. YN RHAI CYWIR: Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng Mrs L Roberts. Dim gwrthwynebiad.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Elusen William Bold.
Cyng J E Lewis heb ddatgan diddordeb. Hawl gan y Cyngor i ofyn iddo adael, neu cau y cyfarfod ar ol mynd trwyr Rhaglen, ac ail agor i drafod Wiliam Bold heb presenoldeb Cyng J E Lewis.
Methu a deall paham mae Cyng J E Lewis heb gael atebion bellach i`r cwestiynau. Mae wedi dweud nad oes dim i guddio. Cynnig Cyng R R Roberts eilio Cyng R G Parry i ail drafod yr Elusen a`r ddiwedd y cyfarfod.

Mae y Cyngor yn bendant o`i dewisiad i`r cynrychiolaeth yn Cyng Mrs L Roberts.
Diolch am ateb gan Ysgrifennydd yr Elusen, yn anffodus nid yw`r Cyngor yn ei dderbyn. Nid ydyw yn ateb beth ydym yn ei ofyn.
(Mae newid i`r Cyfansoddiad wedi ei wneud a`r ol i`r Cyngor ddewis ymddiriedolwr) (a ydyw yn sefyll yn Gyfreithiol? Nid oedd cyfarfod llawn. A ydyw`r ymddiriedolwyr Gwalchmai yn wybodol o`r cefndir.)
Ail drafodwyd ar ddiwedd y cyfarfod a pasiwyd i rhoi amser ychwanegol i gael ymateb trwy anfon ymalen i Ysgrifennydd yr Elusen. Mae atebiad wedi dod i law gan yr Adran Gyfreithiol Un Llais Cymru. A rhaid ei weithredu.
Cynnig Cyng R R Roberts eilio Cyng G Jones.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2022/222. Cais llawn ar gyfer dymchwel rhannol, addasu ac ehangu`r Filfeddygfa bresennol. Codi adeilad newydd i`w ddefnyddio fel rhan o`r Filfeddygfa bresennol (defnydd dosbarth E) Addasiadau i`r fynedfa bresennol i gerbydau ynghyd a thirlunio meddal a chaled yn:- Milfeddygfa Bodrwnsiwn, Stad Ddiwydiannol Mona, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad. Cynnig Cyng D T Roberts, eilio Cyng G Jones.

2. Cais llawn i newid defnydd y Padog presennol yn ardd ynghyd a chodi Garej arwahan a throi Garej bresennol yn Swyddfa Cartref yn:-
   Tyn Rhos, Trefor.
   Gwrthwynebiad.
   Mwy o fanylion. Mae`r garej yn bell oddiwrth y ty. Felly mae tu allan i`r ffin datblygu.
   Cynnig Cyng Mrs L Roberts, eilio Cyng R R Roberts. Nid oedd unrhyw gefnogaeth.

3. FPL/2021/124. Datblygiad ar dir hensafle moch yng Ngwalchmai. Cyngor Cymuned Gwalchmai. Wedi ei anfon i`r Cyngor gan y tirfeddianwr yn gofyn am gefnogaeth i`w wrthwynebu.
   Cyngor Gwalchmai wedi ei anfon i Cyngor Bodffordd heb ddim barn. Siomedig iawn. Derbyn.

PENDERFYNIADAU.

4. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

5. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   Datganiad Cefnogaeth Costau Byw i barhau.
   Cyngor Sir yn gwneud bob dim posibl er mwyn cefnogi trigolion yr Ynys trwy argyfwng costau byw Cenedlaethol. Derbyn y wybodaeth.

GOHEBIAETH (ARALL)

6. Llinos Rowlands.
   Cais Cynllunio Haulfryn, Bodffordd. Nid oes Cynllun eto.
   Pryderus iawn o`r Cynllun i ddod. Ydi`r lleoliad yn addas, lefel o draffig yn gyrru drwy`r Pentref. Fynedfa yng nghanol lon brysur, gyda traffig trwm yn ddyddiol. Dwy gyffordd brysur, damweiniau wedi digwydd yn y gorffennol. Bydd cynyddiad sylweddol wrth ychwanegu mynedfa i Stad Newydd o dai. Traffig trwm heibio`r Ysgol a drwy y Pentref yn rheolaidd gyda cherbydau megis Loriau a Thractorau bydd 15 o dai ychwanegiad sylweddol. Mae`r sefyllfa rwan yn rhwystro cerddwyr fynd ar y palmant yn golygu ei bod yn gorfod camu allan i`r lon brysur daw yn sgil Ceir, Beic, Sgwter a Binniau ailgylchu. Pram neu Gadair Olwyn yn ei chael yn amhosib. Meddwl am y Rhieni fydd yn cerdded ei plant i`r Parc Chwarae.
   Gobeithio fydd y Cyngor Cymdeithas yn ystyried y pryderon r`wyf wedi eu crynodi yn fras. Gwrando ar lais trigolion y Pentref.
   Cynghorwyr wedi clywed ei phryderon. Ond cyn gwneud unrhyw symudiad mae rhaid gweld beth fydd yn cael ei gyflwyno yn ei cais.
   Mae y Cynghorwyr yn rhannu yn ei dewis.

RHODDION.

7. Dim.

PLWYFOL.

8. Cyng G Jones. Cwyn gan 26 Bronheulog, Bodffordd am y ffin glaswellt o flaen 26/27 Bronheulog. Wedi cael damwain i`w Gar, wedi ei daro gan Gar arall am ei bod yn gul yma. Nid ydyw hyn y tro cyntaf. Poeni am blentyn yn cael ei frifo.
   Cafodd y Clerc gwyn ychydig amser yn ol gan Mr Einion Williams pan yr oedd yn Gynghorwr. Yn gofyn am y posibilrwydd o cael symud y ffiniau glaswellt.
   Nid oedd y Cyngor Sir yn fodlon, oherwydd buasai y tramwy yn gyflymach ac yn fwy peryg i`r plant.